

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael

Hydref 2022



# 1. Y cefndir

## Bil Caffael Llywodraeth y DU

1. Cynigiodd Llywodraeth y DU y dylid diwygio deddfwriaeth caffael ym mis Rhagfyr 2020, ar ôl diwedd y cyfnod pontio yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Yn ei Phapur Gwyrdd, *Transforming public procurement*, esboniodd Llywodraeth y DU ei nod fel a ganlyn:

*"...to speed up and simplify our procurement processes, place value for money at their heart, and unleash opportunities for small businesses, charities and social enterprises to innovate in public service delivery."*<sup>1</sup>

2. Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ei bod wedi derbyn cynnig gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r deddfwriaeth a oedd ar ddod "i ddiwygio'r prosesau sylfaenol sy'n sail i gaffael" yng Nghymru.<sup>2</sup>

3. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y Bil Caffael (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022.<sup>3</sup> Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys 116 cymal ac 11 Atodlen, y mae pob un ohonynt, ac eithrio tri chymal, yn berthnasol i Gymru.<sup>4</sup>

4. Yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, nodir fel a ganlyn:

*"The purpose of the Procurement Bill is to reform the United Kingdom's public procurement regime following its exit from the European Union (EU), to create a simpler and more transparent system not based on transposed EU Directives."*<sup>5</sup>

5. Cafodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 Mai 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bil yn mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth y DU, [Papur Gwyrdd: Transforming public procurement](#), Rhagfyr 2020, paragraff 1 (Saesneg yn unig)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru [Datganiad ysgrifenedig: Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Diwygio Caffael yng Nghymru](#), 18 Awst 2021

<sup>3</sup> [Y Bil Caffael fel y'i cyflwynwyd](#) (HL Bill 4) (Saesneg yn unig)

<sup>4</sup> [Y Bil Caffael: Nodiadau Esboniadol](#), Atodiad A – Rychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig

<sup>5</sup> Y Bil Caffael: Nodiadau Esboniadol, paragraff 1 (Saesneg yn unig)

---

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

- 6.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwnaeud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.
- 7.** Ar 9 Mehefin 2022, gosododd y Gweinidog gerbron y Senedd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>6</sup> (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil.
- 8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 6 Hydref 2022.<sup>7</sup> Yn ddiweddarach, estynnwyd y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad hyd at 10 Tachwedd,<sup>8</sup> ac yna hyd at 24 Tachwedd 2022.<sup>9</sup>

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

---

- 9.** Mae paragraffau 17 i 102 o'r Memorandwm yn rhoi asesiad y Gweinidog ynghylch pa rai o ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:
- cymalau 1 i 5; cymalau 7 i 9; Atodlenni 1 i 4 (Prif ddiffiniadau);
  - cymalau 10, 11 a 13 (Egwyddorion ac amcanion);
  - cymalau 14 i 43; Atodlen 5; cymalau 44 i 55; Atodlen 6; Atodlen 7; cymalau 56 i 61 (Dyfarnu contractau cyhoeddus a gweithdrefnau);
  - cymalau 62 i 71; Atodlen 8; cymalau 72 a 73 (Rheoli contractau cyhoeddus);
  - cymalau 74 i 76 (Gwrthdaro buddiannau);
  - cymalau 77, 79 ac 80 (Contractau o dan y trothwy);
  - cymalau 81 ac 82; Atodlen 9 (Cadw at ymrwymïadau rhyngwladol);

---

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Medi 2022

---

- cymalau 84 i 88 (Gwybodaeth a hysbysiadau: darpariaeth gyffredinol);
- cymalau 89 i 95 (Rhwyndiau am dorri dyletswydd statudol);
- cymalau 96 i 98 (Goruchwylio caffael);
- cymal 99; cymalau 101 i 103 (Awdurdodau priodol a chaffael trawsffiniol);
- cymal 104; cymalau 106 a 107; Atodlen 11 (Diwygio a diddymu);
- cymalau 109 i 113; cymal 115 (Cyffredinol).

**10.** Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 51 a 99, yn wahanol i farn y Gweinidog. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer cyfres o gymalau eraill – cymalau 6, 105, 114 ac 116 – tra bod Llywodraeth Cymru yn anghytuno.<sup>10</sup>

## **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)**

**11.** Ar 11 Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 2)<sup>11</sup> mewn perthynas â diwygiadau a gyflwynwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 27 Mehefin 2022.<sup>12</sup>

**12.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 10 Tachwedd 2022.<sup>13</sup> Yn ddiweddarach, estynnwyd y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad hyd at 24 Tachwedd 2022.<sup>14</sup>

---

<sup>10</sup> Y Bil Caffael: Nodiadau Esboniadol, Atodiad A – Rychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig (Saesneg yn unig)

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y Bil Caffael](#), Gorffennaf 2022

<sup>12</sup> Y Bil Caffael, [Gwelliannau i'w cynnig yn yr Uwch-bwyllgor](#), Gorffennaf 2022 (Saesneg yn unig)

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Caffael](#), Gorffennaf 2022

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Medi 2022

---

## Perthynas y Bil â darnau eraill o ddeddfwriaeth

### Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

---

**13.** Cafodd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ei gyflwyno yn y Senedd ar 7 Mehefin 2022. Mae'r Gweinidog yn esbonio ym mharagraff 11 o'r Memorandwm bod y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus "hefyd yn cynnig gosod rhwymedigaethau o ran caffael ar gyrff cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru".

**14.** Mae'r Gweinidog yn esbonio ymhellach sut y mae'r y ddau Fil yn cyd-blethu ym mharagraff 12 o'r Memorandwm:

*"Mae Bil Caffael Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar y prosesau caffael, mae'r Bil SPPP ar y llaw arall yn canolbwyntio ar sicrhau bod caffael yn esgor ar ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau Fil yn darparu trefn gaffael newydd sy'n sicrhau canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, gan gynnwys gwaith teg."*

### Y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)

---

**15.** Cyflwynwyd y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) i Senedd y DU ar 11 Mai 2022.<sup>15</sup> Gosododd Llywodraeth Cymru gerbron y Senedd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil ar 25 Mai 2022.<sup>16</sup>

**16.** Ym mharagraff 15 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

*"Caiff Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) yn ogystal â'r diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru a wneir trwy Fil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) eu diddymu gan y Bil Caffael."*

## Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil

**17.** Mae'r Gweinidog yn nodi ei barn am fanteision y Bil ym mharagraff 117 o'r Memorandwm. Mae'r manteision yn cynnwys gweithdrefnau symlach, mwy o hyblygrwydd a mwy o dryloywder.

**18.** Ym mharagraff 118, mae'r Gweinidog yn rhestru ei rhesymau pam fod dewis deddfu ar sail Cymru a Lloegr yn "ddewis pragmatig". Mae'r rhesymau hynny'n cynnwys dilyniant i gyflenwyr a

---

<sup>15</sup> Y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), fel y'i cyflwynwyd. (Saesneg yn unig)

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), Mai 2022

---

phrynwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu'n drawsffiniol, ac alinio polisiau, ond gyda rhanddirymiadau neu esemptiadau os na fydd polisiau'n cyd-fynd.

**19.** Aiff y Gweinidog ymlaen i egluro, yn ei barn hi, fod darpariaethau'r Bil yn "synhwyrol ac yn bwysig", ac mae'n awgrymu bod manteision i'r dull hwn o ddeddfu o ran amseru ac adnoddau:

*"Amseru: mae Llywodraeth y DU wedi cael cyflwyno deddfwriaeth i Senedd y DU lawer cynt nag y byddai amserlen Senedd Cymru wedi'i chaniatáu. Trwy weithredu ar y cyd, daw diwygiadau i rym yn gynt yng Nghymru nag a fyddai'n bosibl fel arall.*

*Mae defnyddio Bil y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio adnoddau ar agweddau pwysig eraill ar gaffael sy'n sicrhau gwerth cymdeithasol ac sy'n sbardunau allweddol i newid, megis y Bil SPPP a Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS), ac ati."<sup>17</sup>*

**20.** Mae'r Gweinidog yn nodi ym mharagraff 119, er ei bod yn "fodlon i'r broses cydsynio deddfwriaethol ddechrau yn Senedd Cymru", fod nifer o bryderon i'w datrys cyn y gellir argymhell cydsyniad. Mae'r pryderon hynny yn cynnwys:

- y pŵer cydredol sydd wedi'i gynnwys i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil, heb fod unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn meysydd datganoledig;
- diffyg pwerau cychwyn ar gyfer Gweinidogion Cymru;
- y pwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati, heb fod unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pwerau hyn mewn meysydd datganoledig.

**21.** Dywed y Gweinidog hefyd ym mharagraff 119 ei bod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd Llywodraeth ar 18 Mai 2022 yn gofyn iddo ystyried diwygio'r Bil i newid y diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru yn y Bil, "gyda'r bwriad o sicrhau bod y cymalau'n gweithio'n decach mewn perthynas â rhai achosion o gaffael trawsffiniol".

**22.** Mae casgliad y Gweinidog ym mharagraff 123 yn crynhoi ei safbwynt ar y Bil:

---

<sup>17</sup> Y Memorandwm, paragraff 118

*"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Cymru wedi'u cynnwys ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n briodol argymhell cydsyniad nes bod y materion sy'n peri pryder fel y'u hamlinellir ym mharagraff 119 uchod wedi'u datrys."*

## **Y diweddaraf ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r diwygiadau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

---

- 23.** Ym mharagraff 11 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod y swyddogion priodol yn parhau i drafod i ddatrys y rhan fwyaf o'r pryderon a amlinellir yn y Memorandwm gwreiddiol, gan gynnwys y rhai mewn perthynas â'r pwerau cydredol, y pwerau cychwyn, a'r diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru a nodwyd eisoes.
- 24.** Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno 320 o welliannau i'r Bil ar 27 Mehefin 2022, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, ac y gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnig cyflwyno nifer ohonynt.<sup>18</sup>
- 25.** Mae'r Gweinidog yn nodi'r gwelliannau sy'n gwneud darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer ym mharagraff 14 o Femorandwm Rhif 2; nodir bod y gwelliannau hyn yn rhai "mân" sy'n "rhoi eglurder". Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud, gan fod y diwygiadau'n ymwneud â'r darpariaethau a amlinellir yn y Memorandwm gwreiddiol, fod y rhesymau dros wneud y darpariaethau fel y'u nodir yn y memorandwm hwnnw yn parhau'n gymwys.<sup>19</sup>
- 26.** Daw'r Gweinidog i'r casgliad:

*"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru."*

---

<sup>18</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 12

<sup>19</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 16

---

*Er fy mod o'r farn bod y gwelliannau a gynigir yn rhai rhesymol, yn yrystyr ei bod yn ymddangos eu bod yn gwneud gwelliannau i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac nad ydynt yn creu unrhyw bryderon newydd i mi, rwyf hefyd o'r farn nad yw'n briodol argymell cydsyniad nes bod y materion sy'n weddill ... wedi'u datrys. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn."*<sup>20</sup>

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**27.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022.<sup>21</sup> Ar 28 Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi llythyr ar y cyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r Memorandwm.<sup>22</sup> Ymatebodd y Gweinidog i'r llythyr ar 1 Medi.<sup>23</sup> Gwahoddwyd aelodau o'r Pwyllgor i sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyda'r Gweinidog ar y memoranda ar gyfer y Bil, a gynhaliwyd ar 21 Medi.<sup>24</sup> Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 26 Medi.<sup>25</sup> Cytunwyd ar ein hadroddiad ar y ddau femoranda ar 17 Hydref<sup>26</sup> a 24 Hydref 2022.<sup>27</sup>

### Ein barn ni

#### Sylwadau cyffredinol

---

**28.** Nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, fel y'u nodir yn y memoranda. Trafodir y materion hyn isod.

**29.** Nodwn fod rhywfaint o anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch pa rai o gymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**30.** Yn benodol, nodwn fod Llywodraeth Cymru yn anghytuno â barn Llywodraeth y DU bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 114 (Rhychwant) a chymal 116 (Enw byr). Er ein bod yn

---

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 19 ac 20

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [11 Gorffennaf 2022](#)

<sup>22</sup> [Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol](#), 28 Gorffennaf 2022

<sup>23</sup> [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol](#), 1 Medi 2022

<sup>24</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, [21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion](#)

<sup>25</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [26 Medi 2022](#)

<sup>26</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [17 Hydref 2022](#)

<sup>27</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [24 Hydref 2022](#)

---



nodi esboniad y Gweinidog bod y cymalau hyn "yn ddarpariaethau technegol sy'n ymwneud â sut mae'r Bil yn gweithio yn hytrach na darpariaethau o sylwedd",<sup>28</sup> er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, credwn y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 114 a 116.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod yr holl gymalau ac Atodlenni a restrir yn y memoranda yn ymwneud â diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod cymal 106 a restrir yn y Memorandwm yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

**Casgliad 3.** Credwn fod diben cymalau 114 ac 116 o'r Bil hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

**Argymhelliad 1.** Dylid gofyn am gydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer cymalau 114 a 116, a dylid sicrhau bod unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil yn cyd-fynd â hynny.

## **Y penderfyniad i beidio â chynnwys darpariaethau yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

---

**31.** Gofynnwyd i'r Gweinidog pa ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r amser a nodwyd ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus i gyflwyno Bil caffael ehangach a oedd yn cwmpasu cwmpas Bil Caffael Llywodraeth y DU. Yn ei hymateb, eglurodd y Gweinidog:

*"Byddai ymgorffori'r Bil Caffael o fewn y Bil SPPP yn golygu newid cwmpas y Bil SPPP, gan y byddai'n cael ei newid i fod yn Fil Caffael yn bennaf ac yn symud ei ffocws oddi wrth Bartneriaethau Cymdeithasol. Hefyd, mae'r ddaau Fil yn anelu at gyflawni gwahanol bethau - mae'r Bil Caffael yn canolbwyntio ar y prosesau sy'n gosod y seiliau ar gyfer caffael, tra bo'r Bil SPPP yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn arwain at ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol."*<sup>29</sup>

**32.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, dywedodd y Gweinidog:

---

<sup>28</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

<sup>29</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 2

---

*"I think that there are clear benefits for having that wider UK approach, or UK Government-led approach, to the nuts and bolts, if you like, of procurement, whilst at the same time procuring ourselves in Wales for the values that we want to see driven through procurement. And I can assure committee that we wouldn't be looking to UK Government to legislate in the space of values, because our values are different in terms of what we would want to achieve through procurement."*<sup>30</sup>

**33.** Ategodd y Gweinidog hefyd y byddai cynnwys darpariaethau yn y Bil Caffael, yn hytrach na'u cynnwys yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, yn arwain at fanteision o ran amseru:

*"Byddai oedi sylweddol cyn y gellid gosod y Bil SPPP gerbron y Senedd, a hynny oherwydd proses ymgynghori ychwanegol. Byddai hynny wedi arwain at Lywodraeth Cymru'n gweithredu eu deddfwriaeth caffael yn hwyrach na Llywodraeth y DU."*<sup>31</sup>

**34.** Fodd bynnag, nodwn fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, wedi codi pryderon ynghylch oedi cyn gweithredu'r Bil Caffael am fod:

*"... nifer o gwestiynau wedi codi o amgylch y deddfwriaeth yn Lloegr, gyda Chynghorau Lloegr yn amlygu pryderon dilys a fyddai'r un mor berthnasol yma. Er enghraifft, bu i ni nodi barn gref ymysg y proffesiwn cyfreithiol ynglŷn â drafftio, natur a gweithrediad rhestr wahardd a reolir yn ganolog.*

*Y targed ar gyfer Llywodraeth y DU yw deddfu'r Rheoliadau Caffael newydd erbyn diwedd 2023. O ystyried nifer a natur yr ymholiadau, rydym yn bryderus bod amserlenni Llywodraeth y DU yn ymddangos yn uchelgeisiol ac yn mynd yn fwyfwy anodd eu bodloni."*<sup>32</sup>

**35.** Nodwn i'r Gweinidog ddweud wrth ymateb i'r pwynt hwn, er bod amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu yn 'uchelgeisiol', ei bod yn parhau'n hyderus y bydd pethau'n symud ymlaen yn ôl y bwriad.<sup>33</sup> Dywedodd swyddog a oedd yno gyda'r Gweinidog:

---

<sup>30</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [27]

<sup>31</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 2

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, [Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael: Tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#), tudalen 18

<sup>33</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [113]

---

*"The implementation date is scheduled for early 2024 at the moment. Whether that is achievable or whether all of the implementation will be achievable by that date is still under discussion."*<sup>34</sup>

**36.** Mae'n bryder i ni bod oedi eisoes, yn ôl pob golwg, o ran gweithredu'r Bil Caffael. Mae hynny'n bwrw amheuaeth ar awgrym y Gweinidog y byddai cynnwys darpariaethau yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus wedi arwain at sefyllfa lle roedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu deddfwriaeth caffael yn hwyrach na Llywodraeth y DU.

**37.** Yn yr un modd, mae gennym amheuon ynglŷn a chasgliad y Gweinidog y byddai ehangu cwmpas y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus i gynnwys darpariaethau a oedd yn nodi'r prosesau sy'n sail i gaffael wedi arwain at oedi sylweddol. Nodwn:

- fod Llywodraeth flaenorol Cymru, ym mis Gorffennaf 2019, wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a fyddai'n "ymgorffori gwaith teg drwy gaffael cyhoeddus";<sup>35</sup>
- bod y Prif Weinidog, ym mis Gorffennaf 2020, wedi cyhoddi cynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Bil partneriaeth gymdeithasol drafft ar ddechrau 2021, y byddai "caffael yn elfen bwysig ynddo";<sup>36</sup> a
- bod Llywodraeth Cymru, ym mis Chwefror 2021, wedi cyhoeddi Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus drafft ar gyfer ymgynghoriad.<sup>37</sup>

**38.** O ystyried yr amserlen hon, a'r ffaith i Lywodraeth Cymru benderfynu cynnwys darpariaethau yn y Bil Caffael ym mis Awst 2021, mae'n ymddangos i ni ei bod wedi cael digonedd o gyfleoedd i ymgorffori darpariaethau a oedd yn nodi'r prosesau sy'n sail i gaffael yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

**39.** Rydym hefyd yn nodi y gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi Papur Gwyrdd *Transforming public procurement* (fel y nodir isod). Unwaith eto, gellid bod wedi defnyddio'r amser a dreuliwyd yn ymgynghori ar

---

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [115]

<sup>35</sup> Y Cyfarfod Llawn, 9 Gorffennaf 2019, Cofnod y Trafodion [186]

<sup>36</sup> Y Cyfarfod Llawn, 15 Gorffennaf 2020, Cofnod y Trafodion [337]

<sup>37</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Drafft, 26 Chwefror 2021

---

gynigion Llywodraeth y DU i ymgynghori, yn lle hynny, ar gynigion Llywodraeth Cymru i'w cynnwys yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

**40.** Nodwn hefyd yr honiad a ganlyn gan y Gweinidog:

*"resourcing and capacity wasn't a consideration in the decision to move forward with the UK Government. It was taken following the engagement that we had with stakeholders, both on the buyer and supplier side, which had a strong preference for that consistent legislation across England, Wales and Northern Ireland."*<sup>38</sup>

### **Cyfleoedd i graffu ar ddarpariaethau'r Bil**

---

**41.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam ei bod yn briodol, yn ei barn hi, dilyn dull deddfwriaethol a oedd yn atal Aelodau o'r Senedd rhag gwneud gwaith craffu deddfwriaethol manwl ar ddarpariaethau'r Bil. Mewn ymateb, esboniodd y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfres o "ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid" ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei Phapur Gwyrdd *Transforming public procurement*.<sup>39</sup> Esboniodd y Gweinidog fod rhanddeiliaid Cymru wedi chwarae rôl eithaf sylweddol yn natblygiad y Bil a'i bod wedi mynd ymlaen i effeithio'n uniongyrchol ar ddull Llywodraeth y DU.<sup>40</sup>

**42.** Awgrymodd y Gweinidog inni hefyd fod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn cynnig digon o gyfleoedd i graffu:

*"Bydd y broses cydsyniad deddfwriaethol yn sicrhau bod modd i'r Senedd wneud gwaith craffu, gan helpu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn glynu wrth yr addewidion a wnaethant pan gytunom i gynnwys awdurdodau contractio Cymru yn y Bil."*<sup>41</sup>

**43.** Yn yr un modd, nodwn yr hyn a ddywedodd y Gweinidog wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus:

*"... from a stakeholder perspective, there's definitely been that opportunity to challenge and to influence and to scrutinise ... and having our officials working so closely with the UK Government, we've been able to scrutinise*

---

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [77]

<sup>39</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 3

<sup>40</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [55]

<sup>41</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 3. Gweler hefyd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [54-55]

---

*there. And I know that, obviously, the Senedd will want to play its part in terms of scrutinising, which is why this process is so important in terms of the LCM. I think it's the first time a Minister has come to one of your committee meetings, and I think that demonstrates our keenness to be open and transparent and to provide as much information as we possibly can for you to take your views to the next steps and so on.*"<sup>42</sup>

**44.** Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai cyfleoedd i graffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil:

*"Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn meysydd sylweddol o'r Bil, felly bydd lefel sylweddol o ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn destun craffu deddfwriaethol manwl yn y Senedd, a bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ehangach yn cael ei wneud â rhanddeiliaid ledled Cymru."*<sup>43</sup>

**45.** Rydym yn anghytuno'n gryf ag awgrym y Gweinidog bod gwaith craffu fel rhan o'r broses cydsyniad deddfwriaethol cystal â'r gwaith craffu manwl a wneir ar gyfer Biliau'r Senedd. Mae'r broses o ystyried Bil gan y Senedd yn cynnwys ymgynghori eang ar yr egwyddorion cyffredinol ac yna gwaith craffu llinell wrth linell mewn pwyllgor ac ar lawr y Senedd, ac mae'r elfennau hynny'n gwbl absennol o'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

**46.** Er ein bod yn nodi barn y Gweinidog bod rhanddeiliaid Cymru wedi cael cyfle i herio, dylanwadu a chraffu ar ddarpariaethau'r Bil, yn gyffredinol, ni chredwn fod y cyfleoedd hynny mor helaeth a thryloyw â'r rhai a roddir i randdeiliaid yn ystod Cyfnod 1 wrth graffu ar Fil gan y Senedd.

**47.** Ni chredwn ychwaith fod rhoi'r cyfle i swyddogion Llywodraeth Cymru 'graffu' ar Lywodraeth y DU yn ddull tryloyw o graffu, yn enwedig gan nad oes cyfle i gynrychiolwyr etholedig ddylanwadu ar y broses.

**48.** At hynny, nid ydym yn cytuno ag awgrym y Gweinidog y bydd is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil yn destun gwaith craffu deddfwriaethol manwl. Er y byddwn yn cyflawni ein rôl wrth graffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil yn unol â'n cylch gwaith a Rheolau Sefydlog y Senedd, ni fydd cyfleoedd i gyflwyno gwelliannau fel sy'n digwydd yn ystod y cyfnod o graffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol.

---

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [57]. Gweler hefyd y llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalennau 3-4

<sup>43</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

---

## Hygyrchedd cyfraith caffael Cymru

---

**49.** Fel rhan o'n gwaith o graffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym bob amser yn ymwybodol o ddyletswydd y Cwnsler Cyffredinol o dan adran 1 o *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad, gan gynnwys y graddau y mae:

- ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg; ac
- wedi ei threfnu'n glir ac yn rhesymegol (o fewn deddfiadau a rhwng deddfiadau).<sup>44</sup>

**50.** Gofynnem i'r Gweinidog pa mor hygyrch fydd y drefn gaffael newydd pan fydd yn cael ei rhannu rhwng dau Fil: y Bil Caffael a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog unwaith eto fod "pwrpas y ddau Fil yn wahanol" ac y "bydd y drefn gaffael newydd yn hygyrch i gyflenwyr gan y bydd tendrau yn cael eu cynllunio i ateb gofynion y ddau Fil pan fydd angen."<sup>45</sup>

**51.** Gwrthododd y Gweinidog yr awgrym y byddai'r drefn newydd yn anhygyrch i weithwyr proffesiynol ym maes caffael yng Nghymru:

*"I don't think it's going to be too much of a challenge for them in terms of having two pieces of legislation to work to and to consider, because they're already doing that in the sense that we already have the existing EU legislation, which has preceded where we're moving to in future, but also we've got the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which they need to be considering in their processes as well."*<sup>46</sup>

**52.** Fodd bynnag, nodwn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi honni, mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y gallai fod dryswch hirdymor o ran caffael yng Nghymru am fod y broses wedi ei rhannu rhwng dau Fil.<sup>47</sup> Pan ofynnwyd i'r Gweinidog ymateb i'r honiad hwnnw, dywedodd:

*"... it goes back to that point about already working to two sets of legislation, and our commitment to ensure that we work constructively and collaboratively with the UK Government to ensure that any training and*

---

<sup>44</sup> [Deddf Deddfwriaeth \(Cymru\) 2019, adran 1](#)

<sup>45</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [42]

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael: Tystiolaeth gan Gyngor Caerffili](#), tudalen 2

---

*guidance that comes forward from them is very much able to dovetail with what else we'll be requiring from people here in Wales".<sup>48</sup>*

**53.** O ran argaeledd cyfraith gaffael Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, dywedodd y Gweinidog:

*"... the substance of the [Procurement] Bill's enactment will be specified in bilingual secondary legislation and guidance that will be developed by Welsh Government as the Bill continues its legislative journey".<sup>49</sup>*

**54.** Esboniodd swyddog oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog pan roddodd ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fod y ddyletswydd o dan adran 1 o *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* wedi cael ei 'hystyried' a bod penderfyniad wedi'i wneud am resymau ymarferol i gynnwys darpariaethau mewn Bil ar gyfer y DU gyfan.<sup>50</sup>

**55.** Rydym yn pryderu bod rhai rhanddeiliaid yng Nghymru yn credu y gallai penderfyniad Llywodraeth Cymru i rannu'r broses o ddiwygio cyfraith gaffael Cymru rhwng dau Fil arwain at ddryswch hirdymor. Byddai hyn yr un mor anffodus ag yw'n ddiangen, gan fod yr opsiwn wedi bod yno erioed i Lywodraeth Cymru gynnwys yr holl ddarpariaethau perthnasol mewn un Bil.

**56.** Byddem hefyd yn dadlau, er bod y rhai sy'n defnyddio cyfraith gaffael yng Nghymru yn gyfarwydd â gweithio ar draws dwy set o ddeddfwriaeth, mae'r drefn gaffael newydd yn golygu y bydd angen iddynt ystyried tair eitem o ddeddfwriaeth sylfaenol, sef y Bil Caffael, y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

**57.** Felly, rydym yn pryderu, ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru yn cychwyn ar raglen i gydgrynhoi'r gyfraith mewn meysydd pwysig eraill yng nghyfraith Cymru, ei bod yn gwneud y gwrthwyneb ym maes cyfraith caffael. Credwn y bydd dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu yn y maes hwn yn cael effaith negyddol ar hygyrchedd cyfraith gaffael yng Nghymru, a fydd yn effeithio fwyaf ar y rhai sydd am gael mynediad i'r gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Casgliad 4.** Pan fo opsiwn ar gael i Lywodraeth Cymru gyflwyno darpariaethau mewn Bil gan y Senedd sydd ar ddod, credwn y dylai fod rhagdybiaeth gref iawn o blaid yr opsiwn hwnnw, er

---

<sup>48</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [46]

<sup>49</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [68]

---

mwyn galluogi pobl Cymru a'u Haelodau etholedig yn y Senedd i graffu arnynt yn helaeth, ac i sicrhau y llunnir deddfwriaeth hygyrch, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**58.** Ni welsom unrhyw reswm ychwaith pam na allai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod wedi deddfu'n gyfochrog ym maes diwygio cyfraith caffael. Codwyd y pwynt cyffredinol hwn yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22.<sup>51</sup> Byddai dilyn y dull hwn yn dal i ganiatáu i'r llywodraethau gydweithio ac ni fyddai o reidrwydd yn arwain at anghysondebau yn y prosesau sy'n cael eu gweithredu ar gyfer rhanddeiliaid.

**59.** Byddai deddfu'n gyfochrog hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru sicrhau:

- bod yr holl hyfforddiant a chanllawiau a ddarperir ar gyfer y rhanddeiliaid hynny yn ystyried ei gwerthoedd allweddol, y mae'r Gweinidog yn awgrymu eu bod yn wahanol i rai Llywodraeth y DU;<sup>52</sup>
- bod yr holl ddarpariaethau'n deg mewn perthynas â chaffael trawsffiniol, y mae'r Gweinidog wedi nodi ei fod yn bryder sy'n weddill o ran y Bil Caffael;
- y cynhelir asesiad effaith ar gyfer Bil sy'n edrych yn benodol ar Gymru, yn enwedig o ystyried bod y Gweinidog yn dweud mai dim ond tua 5 y cant o'r cyfanswm ar draws y DU sy'n cael ei wario ar gaffael yng Nghymru.<sup>53</sup>

**60.** Yn bwysig i ni, byddai deddfu'n gyfochrog yn caniatáu i'r Senedd ymgymryd â'i rôl graffu deddfwriaethol.

## **Ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru**

---

**61.** Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi rhoi gwybod i Senedd Cymru am benderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil Caffael. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r cyhoeddiad hwnnw, wedi esbonio bod dau swyddog o Lywodraeth Cymru wedi cael eu secondio i Swyddfa'r Cabinet am dridiau'r wythnos er mwyn hwyluso'r trefniant a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU a gwella ymgysylltiad rhynglywodraethol.<sup>54</sup>

---

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad Blynyddol 2021/22](#), paragraff 53

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [27]

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [60]

<sup>54</sup> Llywodraeth Cymru, [Stori newyddion: Diwygio Caffael yng Nghymru](#), 23 Awst 2021

---



**62.** Gofynnem i'r Gweinidog nodi faint o ran y chwaraeodd hi a'i swyddogion yn y gwaith o lunio a drafftio cymalau o'r Bil Caffael. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

*"Bu fy swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Swyddfa'r Cabinet ar ddatblygu'r Bil Caffael, ac maent yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cydfynd ag amcanion a deddfwriaeth polisi Cymru. Maen nhw'n cwrdd yn aml a byddant yn parhau i archwilio unrhyw ddiwygiadau ychwanegol y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i gymalau'r Bil wrth iddo symud drwy system graffu Senedd y DU."*<sup>55</sup>

**63.** Wrth roi tystiolaeth lafar, disgrifiodd y Gweinidog y berthynas waith fel a ganlyn:

*"... working on this Bill has been a really good example of how the UK Government can engage constructively with the Welsh Government. I think it's been a really positive overall experience in terms of working through the development of the Bill. You'll know that we've had a couple of members of staff seconded to the Cabinet Office for six months before the publication of the Bill and so on, and engagement has been very frequent and very good"*.<sup>56</sup>

**64.** O ran rôl y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer caffael cyhoeddus wrth ddatblygu'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae Gweithgor eisoes wedi'i sefydlu o dan y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer caffael cyhoeddus. Cynhelir cyfarfodydd misol ac mae'r pedair Gweinyddiaeth yn mynychu ac mae datblygiad y Bil yn eitem sefydlog ar yr agenda."*<sup>57</sup>

**65.** Rydym yn nodi sylwadau Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymgysylltiad cadarnhaol y Gweinidog a'i swyddogion â Llywodraeth y DU.

**66.** Fodd bynnag, fel yr amlinellir isod, er gwaethaf yr ymgysylltiad cadarnhaol hwn a'r ffaith i Lywodraeth y DU gyflwyno dros 300 o welliannau, rydym yn pryderu bod y Bil yn dal i gynnwys meysydd o bryder sydd heb eu datrys.

---

<sup>55</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [39]

<sup>57</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

---

## Pwerau cydredol

---

**67.** Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU yn nodi na ddylai "Biliau'r DU greu pwerau cydredol".<sup>58</sup> Rhoddir diffiniadau o bwerau cydredol a phwerau cydredol plws (o'r canllawiau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru<sup>59</sup>) ym Mluch 1:

### Blwch 1: Diffiniadau

Pŵer cydredol yw pŵer y gellir ei weithredu:

(a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu

(b) gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru (er enghraifft, pan fo Gweinidogion y DU yn gweithredu pwerau mewn perthynas â'r DU gyfan; neu mewn perthynas â Chymru a Lloegr).

Ni ddylai Gweinidogion y DU weithredu eu pwerau mewn perthynas â Chymru heb gytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer, ond (oni bai ei fod yn bŵer cydredol plws – gweler isod) nid oes gofyniad cyfreithiol iddynt gael cydsyniad er mwyn deddfu.

Pŵer "cydredol plws" yw math arbennig o bŵer cydredol y gellir ei weithredu:

(a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu

(b) yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru, gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried p'un ai i roi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn gweithredu swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni all Gweinidogion y DU weithredu y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru.

**68.** Mae'r canllawiau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr egwyddor a ganlyn:

*"Egwyddor 8: Dylid ond creu swyddogaethau cydredol newydd mewn amgylchiadau eithriadol iawn a dylai timau sicrhau y bydd eithriad mesurau yn berthnasol fel na fydd angen cydsyniad wrth eu dileu (i warchod*

---

<sup>58</sup> Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021, Atodiad B: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU

<sup>59</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021

*cymhwysedd deddfwriaethol), a'u bod yn gydredol plws (i warchod cymhwysedd gweithredol)."*<sup>60</sup>

**69.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog ddarparu naratif ar y pwerau cydredol a geir yn y Bil, a sut roedd y dull a ddilynwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau ar bwerau cydredol.

**70.** Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau pwerau cyfatebol ac annibynnol er mwyn gwneud rheoliadau ar gyfer mwyafrif helaeth o bwerau yn y Bil.*

*Mae yna bŵer cydredol plws yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, mewn perthynas ag adran 62 (anfonebu electronig). Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol a minnau fod rhesymeg gref dros y sefyllfa hon. Ystyriwyd bod pŵer cydredol plws yn briodol, yn bennaf er mwyn darparu cysondeb i'r safonau a'r cystrawennau e-anfonebu sylfaenol ar draws gwledydd y DU, a hynny er mwyn osgoi dryswch a chostau ychwanegol i gyflenwyr. Yn unol â'r canllawiau, mae fy swyddogion wedi sicrhau bod cymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol y Senedd wedi'i ddiogelu gan fod hwn yn bŵer cydredol plws ac mae eithriad (carve-out) wedi'i gynnwys o fewn adran 106 o'r Bil."*<sup>61</sup>

**71.** Yr opsiwn gorau, yn ein barn ni, fyddai cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru yn y Bil sy'n cyfateb i'r rhai a ddarperir i Weinidogion y DU. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ynghylch pam ei bod yn fodlon derbyn cynnwys y pŵer cydredol plws hwn i wneud rheoliadau yn y Bil. Yn hyn o beth, nodwn fod eithriad wedi'i gynnwys yn adran 106 o'r Bil, sy'n golygu y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth i ddileu'r pŵer cydredol heb gydsyniad Gweinidog y Goron.

**72.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod pwerau cydredol eraill o fewn y Bil, y mynegwyd pryder amdanynt ym mharagraff 119 o'r Memorandwm, yn destun trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU. Dywedodd hefyd ei bod yn bosibl "y bydd pwerau cydredol pellach o ganlyniad i ddiwygiadau posib".<sup>62</sup>

**73.** Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud, mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, bod Llywodraeth Cymru yn trafod â Llywodraeth y DU

---

<sup>60</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021, Atodiad B: Canllawiau ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol

<sup>61</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 5

<sup>62</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 5

---

â'r bwriad o ddiwygio'r pŵer cydredol i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil.<sup>63</sup> Dywedodd swyddog a oedd yno gyda'r Gweinidog:

*"... there's been a similar issue faced in relation to the Australia-New Zealand trade Bill that's also being considered as part of the LCM process at the moment, so it seems to be a DIT [Department for International Trade] clause rather than a Cabinet Office clause, and so there are discussions taking place at that level as well."*<sup>64</sup>

**74.** Esboniodd y Gweinidog mai mater o egwyddor oedd ceisio newid y pŵer hwn i Lywodraeth Cymru, yn hytrach na bod unrhyw oblygiadau ymarferol mawr.<sup>65</sup> Esboniodd hefyd nad oedd wedi ymgysylltu'n helaeth â'r Adran Masnach Ryngwladol, oherwydd mai Gweinidog yr Economi a oedd yn arwain gwaith ymgysylltu o'r fath fel arfer.<sup>66</sup> Ymhelaethodd un o swyddogion y Gweinidog ar hyn:

*"... the trade team is doing it on the Australia and New Zealand Bill and the intention is that whatever is agreed on that area will be reflected in the ... Procurement Bill. ... if, and when, we get an agreement with DIT on that area, then whatever's affected will be reflected in the Procurement Bill and that's the intention. We are carrying on to engage with our trade colleagues to make sure that they keep us informed of all the details of those engagements."*<sup>67</sup>

**75.** Rydym yn cydnabod esboniad y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r pŵer cydredol hwn. Yn unol â'n barn ym mharagraff 71 uchod, credwn y dylai'r pwerau i Weinidogion Cymru yn y Bil gyfateb i'r rhai a roddir i Weinidogion y DU, ac y dylent fod yn bwerau cydredol plws ag eithriadau priodol, a dweud y lleiaf, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**76.** Rydym yn pryderu y gallai'r ffordd gymhleth y mae cyfrifoldebau o ran y pŵer hwn wedi eu rhannu rhwng adrannau Llywodraeth y DU effeithio'n negyddol ar y tebygolrwydd y bydd pryderon y Gweinidog yn cael eu datrys. Nodwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y

---

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [133]

<sup>64</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [143]

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [145]

<sup>66</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [171]

<sup>67</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [174]

---

Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth ar 23 Mai 2022 i ofyn iddo ystyried diwygiad i'r Bil i fynd i'r afael â'r mater hwn.<sup>68</sup> Nid yw'n glir i ni a gafwyd ymateb.

### **Meysydd eraill o bryder sy'n weddill**

---

**77.** Esboniodd y Gweinidog wrthym ei bod "wedi cyrraedd sefyllfa lle'r ydym oll yn gytûn" gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r materion a godwyd ynghylch y pŵer datgymhwysu ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, yn ogystal â phryder a godwyd ynghylch dyletswydd Awdurdod Contractio Cymru i roi sylw i sicrhau bod Datganiad Polisi Caffael Cymru yn un y gellir ei "orfodi mewn achosion sifil".<sup>69</sup>

**78.** Rydym yn nodi mai un o'r prif feysydd sydd heb ei ddatrys, yn ôl y Gweinidog yn ystod ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, yw'r diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru yn y Bil.<sup>70</sup> Unwaith eto, nodwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth ar 18 Mai 2022 i godi'r pryder hwn.<sup>71</sup> Dywedodd swyddog a oedd yn cefnogi'r Gweinidog, er bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio diwygio'r diffiniad, nid oedd llawer o awch i wneud llawer mwy o ddiwygiadau bryd hynny, er y byddai cyfleoedd pellach i wneud diwygiadau pan fydd y Bil yn cyrraedd Tŷ'r Cyffredin.<sup>72</sup>

**79.** Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos nad oes gan Lywodraeth y DU lawer o awch i wneud diwygiadau pellach i'r Bil ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y pryderon sy'n weddill a ganlyn a godwyd ym mharagraff 119 o'r Memorandwm:

- a. y ffordd y mae'r pŵer sy'n ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil wedi ei ddrafftio fel pŵer cydredol, heb fod unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig;
- b. y diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru;

---

<sup>68</sup> Y Memorandwm, paragraff 119

<sup>69</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 6

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [123]

<sup>71</sup> Y Memorandwm, paragraff 119

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [125]

---

- c. y ffordd y mae pwerau cychwyn wedi eu drafftio fel pwerau Gweinidog y Goron yn unig;
- d. y pwerau cydredol sydd wedi eu cynnwys i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati, heb fod unrhyw ofyniad i geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pwerau hyn mewn perthynas â meysydd datganoledig.

**Argymhelliad 3.** Am resymau tryloywder, dylai'r Gweinidog gyhoeddi ei llythyrau ar 18 Mai a 23 Mai 2022 at y Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth, a'r ymatebion a gafwyd (os o gwbl).

**80.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd wedi ymgysylltu â mecanweithiau'r cytundebau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd<sup>73</sup> i ddatrys materion o bryder. Yn ei hymateb, dywedodd:

*"Na, nid ydym wedi defnyddio'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd. Mae unrhyw faterion sy'n peri pryder wedi cael eu trin, ac yn parhau i gael eu trin, drwy ohebiaeth a chyfarfodydd rhwng swyddogion a/neu Weinidogion."<sup>74</sup> [pwyslais gwreiddiol]*

**81.** Yn ei thystiolaeth lafar, nodwn fod y Gweinidog wedi rhannu ei gobaith na fyddai angen iddi ymgysylltu â'r mecanweithiau datrys anghydfodau i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill:

*"I've got a list as long as my arm in terms of things I'd like to have a dispute with the UK Government on, but we're not at that point on this yet."<sup>75</sup>*

**82.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog ymrwymo i beidio â defnyddio cytundeb rhynglywodraethol gyda Llywodraeth y DU fel mecanwaith ar gyfer datrys ei phryderon. Ymrwymodd y Gweinidog i beidio â gwneud hynny, ond byddai'n parhau i "adolygu hyn wrth i drafodaethau barhau ac wrth i'r Bil barhau ar ei daith."<sup>76</sup>

**83.** Credwn y dylai'r Gweinidog gadw ei hopsynau ar agor o ran a ddylid ymgysylltu â'r mecanweithiau cysylltiadau rhynglywodraethol i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni ar ba bwynt yn ystod hynt y Bil y gallai'r Gweinidog fod yn agored i

---

<sup>73</sup> Llywodraeth y DU, Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol, 13 Ionawr 2022, Atodiad D: Y broses ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau (Saesneg yn unig)

<sup>74</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 7

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [162]

<sup>76</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 7

---

ddefnyddio'r mecanweithiau hyn, neu pryd y gallai benderfynu defnyddio cytundeb rhynglywodraethol i'r perwyl hwnnw.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog nodi'r pwynt yn ystod hynt y Bil pan fyddai'n ystyried defnyddio'r mecanweithiau cysylltiadau rhynglywodraethol i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill yn y Bil.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog nodi unrhyw senarios lle y byddai'n ystyried defnyddio cytundeb rhynglywodraethol i ddatrys meysydd o bryder sy'n weddill yn y Bil.

### **Y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfwriaeth a ddewiswyd o dan y Bil, a manylion a roddwyd yn y memoranda**

---

**84.** Nodwn fod Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi wedi gosod ei adroddiad ar y Bil ar 14 Mehefin 2022. O'r cymalau y nodwyd yn y Memorandwm bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, roedd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio o'r farn y dylai cymal 79 o'r Bil (sy'n cynnwys pŵer Harri VIII) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn hytrach na'r weithdrefn negyddol fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd.<sup>77</sup>

**85.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog beth oedd ei rôl wrth ddewis y weithdrefn negyddol ar gyfer cymalau o fewn y Bil sy'n cynnwys pwerau Harri VIII (cymalau 50, 62, 63, 65, 79, 80 ac 84), ac a oedd hi'n credu bod y weithdrefn yn briodol ar gyfer y pwerau hynny. Yn ei hymateb, dywedodd:

*"Mae fy swyddogion wedi ystyried y pwerau a'r gweithdrefnau cysylltiedig fel rhan o'u hadolygiad o'r cymalau drafft a ddarperir gan Lywodraeth y DU ac maent wedi darparu adborth fel y bo'n briodol. Mae rhai pryderon o ran gweithdrefnau rhai o'r cymalau hyn wedi'u codi yn Adroddiad y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio.*

*Mae'r trafodaethau rhwng fy swyddogion a'u cymheiriaid yn Swyddfa'r Cabinet yn parhau mewn perthynas â'r ymateb i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio."<sup>78</sup>*

---

<sup>77</sup> Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, 3ydd Adroddiad Sesiwn 2022–23, paragraff 17 (Saesneg yn unig)

<sup>78</sup> Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 5

---

**86.** Mae'n parhau'n aneglur i ni beth yw barn y Gweinidog ynglŷn â phriodoldeb y gweithdrefnau a ddyrannwyd i bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil, yn enwedig y rhai sy'n bwerau Harri VIII.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog nodi ei safbwyntiau ar y gweithdrefnau sy'n gymwys i holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â phryderon a godwyd gan y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio mewn perthynas â'r Bil.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog roi ymateb i'r holl argymhellion a geir yn yr adroddiad hwn o fewn tair wythnos i'r dyddiad y cafodd ei osod, neu cyn i unrhyw femoranda yn y dyfodol gael eu gosod gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil, pa un bynnag a ddaw yn gyntaf.

**87.** Yn ôl Memorandwm Rhif 2, gwnaed diwygiad i gymal 70 o'r Bil (Contract change notices and publication of modifications) sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cymal at ddibenion newid y trothwyon canrannol. Nodwn mai pŵer Harri VIII yw'r pŵer hwn felly. Er nad yw Memorandwm Rhif 2 yn nodi'r weithdrefn sy'n gymwys i'r pŵer hwn, ymddengys i ni, ar ôl edrych ar y Bil, mai'r weithdrefn negyddol a fyddai'n gymwys. Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, nodwn i'r swyddog a oedd yno gyda'r Gweinidog ddweud bod y weithdrefn anghywir wedi'i dyrannu ar gam i'r pŵer hwn, a bod disgwyl diwygiad technegol pellach i'w wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.<sup>79</sup>

**88.** Ar fater arall, roeddem o'r farn nad oedd Memorandwm Rhif 2 yn aml yn cynnwys digon o fanylion o ran effaith y diwygiadau a wnaed i'r Bil. Er enghraifft, mae'n dweud bod diwygiad i gymal 51 yn rhoi "mwy o eglurder",<sup>80</sup> er mai effaith y diwygiad yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio gyhoeddi contract llai manwl ('light touch') yr amcangyfrifir y bydd yn werth mwy na £2 miliwn o fewn 180 diwrnod, yn hytrach na 90 diwrnod fel oedd yn digwydd cyn y diwygiad. Mae diwygiad o'r fath yn newid sylweddol sy'n gwneud mwy na rhoi "mwy o eglurder" yn ein barn ni.

---

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [158]

<sup>80</sup> Memorandwm Rhif 2, paragraff 14.3.18



**89.** Rydym felly'n croesawu ymrwymadau a wnaeth y Gweinidog wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i sicrhau bod memoranda atodol yn y dyfodol yn:

- nodi gweithdrefn y Senedd yn glir pan fydd darpariaeth yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth; ac yn
- esbonio sut y maent yn wahanol i femoranda blaenorol.<sup>81</sup>

---

<sup>81</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [159]

---